Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Glanrafon
# Lôn Bryn Coch
# Yr Wyddgrug
# Sir Y Fflint
# CH7 1PS

**Dyddiad yr arolygiad: 18 - 20 Ionawr 2011**

**gan**

**Wil Williams**

**Arolygydd Cofnodol, o dan gontract i Estyn**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd a Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod yr hawlfraint yn y deunydd fel y dywedwyd uchod a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

## Cyd-destun

Ysgol benodedig Gymraeg yw Ysgol Gynradd Glanrafon. Mae wedi ei lleoli yn nhref Yr Wyddgrug ac yn gwasanaethu'r dref ei hun ynghyd ag ardal eang o fewn ei dalgylch. Ar y cyfan, ystyrir bod yr ardal yn un ffyniannus ac mae cefndir nifer dda o'r disgyblion yn llewyrchus. Mae oddeutu saith y cant o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim sy'n llawer is na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Nid oes yr un disgybl y gofelir amdano gan yr awdurdod lleol (ALl).

Ar hyn o bryd, mae 246 o ddisgyblion llawn amser rhwng 4 ac 11 oed yn mynychu'r ysgol, ynghyd â 43 o blant tair oed rhan-amser. Daw nifer fechan o ddisgyblion o gefndir ethnig ac nid oes yr un disgybl sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Trefnir yr ysgol yn ddeuddeg dosbarth cymysg oedran. Daw oddeutu 20 y cant y disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith.

Dynodir cyfanswm o 66 (22 y cant) yn ddisgyblion a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sydd ychydig yn uwch na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys y pedwar y cant sydd â datganiad statudol o ADY. Mae uned adnawdd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu dwys o ysgolion Cymraeg yr ALl, wedi'i lleoli yn yr ysgol. Fe'i mynychir gan saith o ddisgyblion yn llawn amser a dau yn rhan amser.

Yn 2010-2011, roedd y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Glanrafon yn £3725 sy’n cymharu ag uchafswm o £7635 ac isafswm o £2660 ar gyfer ysgolion cynradd Sir y Fflint. Gan yr ysgol mae 28ain gyllideb uchaf fesul disgybl o 74 o ysgolion cynradd Sir y Fflint.

Ers yr arolygiad diwethaf yn nhymor y Gwanwyn 2005, bu cynnydd sylweddol yn nifer disgyblion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- llawer o'r disgyblion yn cyflawni safonau da;
- yr addysgu yn gyson dda gyda pheth addysgu rhagorol;
- pob disgybl yn derbyn profiadau dysgu diddorol ac ysgogol; a bod
- ansawdd arweinyddiaeth strategol yn dda.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- codi safonau cyflawniad a gwella'r ddarpariaeth addysgol yn cael blaenoriaeth uchel;
- cyrhaeddiad disgyblion prif-lif ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2 yn cymharu'n dda â'r meincnodau lleol a chenedlaethol;
- disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da iawn; a bod
- trefniadau trylwyr ac effeithiol ar gyfer hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r ysgol:

*A1. Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau ynghylch eu dysgu.

*A2. Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang.

* Blaenoriaeth yn y CGY cyfredol

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhelliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau disgyblion saith oed ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 (CA1) dros y tair blynedd diwethaf yn dda mewn Cymraeg a gwyddoniaeth ac yn ddigonol mewn mathemateg. Maent yn dangos gwelliant parhaus mewn Cymraeg a gwyddoniaeth dros y cyfnod tra mae canlyniadau mathemateg yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall. Mae'r gyfran sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC), sef y lefel disgwyliedig ym mhob un o'r tri phwnc craidd, wedi gwella'n sylweddol yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Mae canlyniadau disgyblion ar ddiwedd CA1 yn 2010 mewn Cymraeg a gwyddoniaeth ychydig yn uwch na meincnodau lleol a chenedlaethol a hefyd yn well na chanlyniadau ysgolion mewn amgylchiadau tebyg. Mae canlyniadau mathemateg ychydig yn is na'r meincnodau hyn. Mae'r ganran sy'n cyrraedd uwchlaw'r lefel disgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol tra mae Cymraeg ychydig yn is. Mae canlyniadau CA1 yn y trydydd chwartel ar gyfer Cymraeg a gwyddoniaeth ac yn y pedwerydd chwartel mewn mathemateg o'u cymharu ag ysgolion eraill gyda chanran tebyg o ddisgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad disgyblion 11 oed ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (CA2) yn ystod dwy o'r tair blynedd diwethaf yn y trydydd chwartel mewn Cymraeg ac yn y pedwerydd mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, pan gaiff perfformiad disgyblion o'r uned adnawdd ei eithrio o'r fintai, mae perfformiad yr ysgol yn gyson uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Yn 2010, mae'r ganran o ddisgyblion CA2 gan gynnwys disgyblion yr uned adnawdd, sy'n cyrraedd Lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ychydig yn uwch na meincnodau lleol a chenedlaethol ond yn is na chanlyniadau ysgolion mewn amgylchiadau tebyg. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni uwchlaw'r lefel disgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn rhagori ar y cyfartaleddau lleol a chenedlaethol a hefyd yn uwch na'r mwyafrif o ysgolion tebyg. Mae'r gyfran sy'n cyflawni'r DPC yn y trydydd chwartel mewn Cymraeg ac yn y pedwerydd chwartel yn y tri phwnc arall.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yn 2010 rhwng y gyfran o ferched a bechgyn a gyrhaeddodd y lefelau disgwyliedig yn y pynciau craidd. Fodd bynnag, mae cyfran uwch o ferched yn cyflawni uwchlaw'r lefelau disgwyliedig mewn Cymraeg yn y ddau gyfnod allweddol a hefyd mewn Saesneg yn CA2.

Mae'r bron pob un disgybl gan gynnwys y rheini sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai llai galluog, yn gwneud cynnydd da drwy'r Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol 1 a 2. Gwneir cynnydd eithriadol gan lawer o ddisgyblion yr uned adnawdd.

Gwna’r rhan fwyaf o’r disgyblion gynnydd da yn eu medrau dysgu.  Mae’r safonau da a gyflawnir mewn medrau cyfathrebu, rhif, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a meddwl yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cyson ar draws holl feysydd y cwricwlwm.  Mae'r cynnydd a wneir gan fwyafrif o ddysgwyr y Gymraeg mewn medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn.  Mae gan ddisgyblion o bob oedran wybodaeth helaeth am iaith a diwylliant Cymru.

**Lles:  Da**

Dywed disgyblion eu bod yn mwynhau dod i’r ysgol.  Mae cyfraddau presenoldeb ar y cyfan yn dda ac ychydig yn uwch na’r cyfraddau cenedlaethol a chyfraddau ysgolion tebyg.  Mae bron pob disgybl yn teimlo’n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gamdriniaeth gorfforol neu eiriol.  Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a’u datblygiad.  Mae safonau ymddygiad ym mhob dosbarth yn dda iawn gyda disgyblion yn arddangos parch a gofal tuag at ei gilydd.  Maent yn ddysgwyr hynod o weithgar a brwdfrydig sy’n cydweithio’n gytûn ac yn cadw’n ddiwyd ar dasg dros gyfnodau estynedig.  Mae nifer dda ohonynt yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn rhwydd ac yn wynebu heriau newydd yn hyderus ond annatblygedig yw eu gallu i wneud penderfyniadau ynghylch eu dysgu.   Mae gan bron pob un ymglymiad cryf i’r ysgol a’r staff ac wrth iddynt aeddfedu, maent yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol.  Mae’r cyngor ysgol yn cyflawni ei waith yn effeithiol ac mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y rhan fwyaf o'r plant yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ystod gyfoethog o brofiadau dysgu a ddarperir yn bodloni anghenion disgyblion, cyflogwyr a’r gymuned yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau dosbarth yn atgyfnerthu'r dysgu mewn nifer o gyd-destunau diddorol sy'n berthnasol i oedran a gallu'r disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Sicrheir bod disgyblion o bob oedran yn caffael y medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh angenrheidiol yn gyson dda ar draws y cwricwlwm. Caiff y Cwricwlwm Cymreig le canolog yn rhaglen waith yr ysgol a gwneir defnydd dychmygus o’r ardal leol a’i phobl i ddarparu profiadau a gweithgareddau dysgu ysgogol.

Mae'r cwricwlwm ynghyd â'r amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir, yn helpu disgyblion i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol. Mae'r ysgol yn gweithredu mewn modd cynaliadwy ond prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddion byd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ac yn cynnwys ychydig o enghreifftiau o addysgu rhagorol. Mae'r addysgu ym mhob dosbarth yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn sicrhau eu hymglymiad llawn i'r tasgau dan sylw. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda a chyfoes a disgwyliadau uchel. Maent yn cynllunio gwersi sydd ag amcanion a deilliannau clir ac yn defnyddio amrediad eang o strategaethau addysgu. Trwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus, llwyddir i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac i ddatblygu eu medrau dysgu yn dda. Mae adborth manwl i ddisgyblion yn eu galluogi i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae trefniadau cynhwysfawr ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion a threfniadau addas ar gyfer safoni asesiadau athrawon. Gwna'r holl staff ddefnydd effeithiol o wybodaeth asesu ynghyd â strategaethau asesu ar gyfer dysgu, ar gyfer llywio'r cynllunio ar gyfer y dyfodol..

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae polisïau a threfniadau gofal effeithiol ar gyfer sicrhau iechyd a lles emosiynol a chorfforol disgyblion yn ogystal ag annog eu hymglymiad yn eu hysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu’n arwyddocaol at ddatblygiad a lles disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu yn dda. Mae profiadau dysgu ynghyd â'r cyfnodau cyd-addoli dyddiol, yn hyrwyddo datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda nifer o wasanaethau allweddol i leihau'r perygl o niwed i ddisgyblion. Mae'r cymorth wedi'i dargedu'n glir ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed ac wedi arwain at gynnydd sylweddol yn natblygiad personol ac addysgol nifer o ddisgyblion. Mae rhaglen sefydlu effeithiol sydd wedi'i theilwra'n dda ar gyfer diwallu anghenion yr holl blant, pan gychwynnant yn y dosbarth meithrin   Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi weithdrefnau diogelu.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer integreiddio a chefnogi disgyblion ag ADY mewn dosbarthiadau ac yn yr uned adnawdd yn rhagorol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol, lle caiff disgyblion hawl gyfartal i holl feysydd o ddarpariaeth yr ysgol.  Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau perthnasol o ansawdd da sydd wedi'i weddu'n briodol ar gyfer yr holl ystod oedran a gallu.  Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd ar gael yn y gymuned i ychwanegu at brofiadau dysgu'r disgyblion.  Mae'r adeilad o ansawdd da ond mae'r prinder gofod yn llesteirio ymdrechion yr ysgol i ymateb yn hyblyg i'r cynnydd sylweddol a fu mewn niferoedd disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff yr ysgol ei harwain yn dda gan y pennaeth a'r corff llywodraethu. Maent yn llwyddo i gydlynu ymdrechion disgyblion, staff a'r rhieni yn effeithiol ac i roi ymdeimlad cryf o bwrpas i waith yr ysgol. Mae rolau a chyfrifoldebau staff wedi'u diffinio'n glir a chaiff pob unigolyn eu cefnogi a'u herio'n gyson gan y pennaeth a'r tîm rheoli (TRh). Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn defnyddio ystod eang o wybodaeth berthnasol am berfformiad i fynd i'r afael â thanberfformio ac i osod amcanion a thargedau sy'n flaenoriaethau strategol. Mae'r llywodraethwyr yn wybodus iawn am gryfderau ac anghenion yr ysgol ac yn cyflawni eu rôl fel ffrind beirniadol mewn ffordd drwyadl a chadarnhaol. Maent yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a chwynion yn ddiymdroi. Caiff polisïau a mentrau, gan gynnwys rhai sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, eu rhoi ar waith yn gyson.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r gweithdrefnau hunan-arfarnu cynhwysfawr yn rhoi darlun cywir i'r arweinwyr o gryfderau ac anghenion datblygu'r ysgol. Gwneir defnydd rheolaidd o ystod eang o weithgareddau monitro ac arfarnu gan gynnwys data perfformiad, wrth gynllunio ar gyfer gwelliant. Caiff disgyblion a rhieni gyfleoedd rheolaidd i fynegi barn am agweddau o'r ysgol a bydd arweinwyr yn gweithredu'n bwrpasol ar y materion a godir ganddynt. Mae hunan-arfarnu wedi cyfrannu'n arwyddocaol tuag at wella safonau a darpariaeth. Mae cymuned ddysgu broffesiynol effeithiol yn yr ysgol sy'n galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gyda chlwstwr ysgolion Cymraeg yr awdurdod lleol a chyda phartneriaid eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae cysylltiadau pontio effeithiol rhwng y cylch meithrin a'r ysgol yn gwneud yn siŵr bod plant yn ymgartrefu'n gyflym â bywyd yr ysgol. Mae'r cynlluniau pontio cynhywysfawr gyda'r ysgol uwchradd Gymraeg yn galluogi'r disgyblion hŷn i gael eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r gweithgareddau partneriaeth gyda'r rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn ehangu'r dewisiadau ar gyfer disgyblion ac yn cynnig manteision clir i'w safonau a'u lles. Mae'r arferion cydweithio effeithiol sydd wedi'u sefydlu yn yr ysgol yn galluogi staff i ganolbwyntio'n dda ar gynllunio a darparu adnoddau ar y cyd ac i sicrhau gwelliant parhaus. Mae'r partneriaethau cynhyrchiol hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at sicrhau ansawdd ac yn ehangu'r ystod o weithgareddau sydd ar gael i ddisgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staffio ac adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi a gwella dysgu. Mae'r ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn dda trwy fanteisio'n llawn ar eu hamser a'u harbenigedd i ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm. Caiff effaith yr

adnoddau ar addysgu a dysgu eu hadolygu'n gyson a chynllunnir yn fanwl ar gyfer anghenion yn y dyfodol.  Mae trefniadau cyllidebu systematig a chywir yn eu lle ac mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles y disgyblion.  At ei gilydd, mae'r deilliannau disgyblion yn dda.  Nid oes unrhyw safonau anfoddhaol nac agweddau annigonol ar y ddarpariaeth.  Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwodd lleiafrif o'r rhieni'r holiadur gyda'r rhan fwyaf yn mynegi barnau cadarnhaol am yr ysgol. Roedd bron pob un yn fodlon gyda'r addysg yn gyffredinol ac yn dweud bod eu plant yn gwneud cynnydd da a'u bod yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un yn teimlo bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod amrywiaeth dda o weithgareddau ar gyfer eu plant. Mae rhai yn teimlo na chânt wybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwodd lawer o ddysgwyr yr holiadur. Mae pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni. Mae'r rhan fwyaf yn dweud bod gwaith cartref yn helpu iddynt wella'u gwaith a bod plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. Mae bron pob un o'r farn bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach a bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Mr Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Ms Meirwen Watts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ms Llinos M Jones | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |